# Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2022-2037

## Galwad am Safleoedd Ymgeisiol

## Gwasanaeth Cyflwyno Safleoedd Ymgeisiol (Awst 2023)

I gefnogi'r Alwad am Safleoedd Ymgeisiol, mae'r Cyngor yn cynnig gwasanaeth cyflwyno dewisol er mwyn helpu'r rheiny sy'n cynnig safleoedd i roi'r wybodaeth angenrheidiol. Diben hyn yw sicrhau bod Safle Ymgeisiol arfaethedig yn gallu cael ei ystyried yn briodol ar gyfer y posibilrwydd o'i gynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLlN) 2022-2037. Codir tâl o £300 am y gwasanaeth hwn. Sylwer bod y gwasanaeth hwn ar gyfer safleoedd llai sydd ddim yn safleoedd strategol. Ar gyfer safleoedd strategol, trafodir y ffi, er buasem fel arfer yn disgwyl i gymhlethdodau safleoedd o'r fath i warantu'r defnydd o gynrychiolaeth broffesiynol.

Mae'r Cyngor wedi llunio cyfres o Nodiadau Canllaw sydd ar gael ar wefan y Cyngor, fel a ganlyn:

- Nodiadau Canllaw ar gyfer Cyflwyno Safle (Mai 2023)
- Nodyn Canllaw Hyfywedd Ariannol yr Alwad am Safleoedd Ymgeisiol (Mai 2023)
- Methodoleg Asesu a Chofrestr Safleoedd Ymgeisiol (Mai 2023);
- Arfarniad Anheddiad Cynaliadwy (Awst 2023)
- Nodyn Canllaw Arolwg Ecolegol (Mai 2023)
- Nodyn Canllaw LANDMAP (Awst 2023); yn ogystal â
- Fersiwn Galwad am Safleoedd Ymgeisiol OpusMap

Mae Cyngor Torfaen wedi mabwysiadu OpusConsult (gan gynnwys OpusMap) i gynorthwyo gydag elfennau ymgynghori ac ymgysylltu proses y CDLlN. Mae OpusConsult yn darparu ffurflenni ymatebol, y gwaith mapio cysylltiedig a'r gallu i lanlwytho dogfennau ategol i gefnogi'r broses o gyflwyno Safleoedd Ymgeisiol. Mae'r Nodyn Canllaw ar gyfer Cyflwyno Safle Ymgeisiol yn nodi'r hyn sy'n angenrheidiol er mwyn cyflwyno safle ymgeisiol newydd ac mae'n rhoi canllawiau manwl i'ch helpu i lenwi'r ffurflen.

Mae'r Gwasanaeth Cyflwyno Safleoedd Ymgeisiol yn cynnig cymorth gydag elfennau canlynol y broses gyflwyno:

1. Llenwi'r Ffurflen Cyflwyno Safle Ymgeisiol yn llawn neu'n rhannol trwy OpusConsult
2. Cynllun Seilwaith Gwyrdd Dangosol

Sylwer y bydd gofyn i chi ddarparu cynllun o leoliad y safle (os oes angen, gallwch brynu cynllun lleoliad safle oddi ar wefannau fel UK Planning Maps https://www.ukplanningmaps.com/free-site-plan), manylion y datblygiad arfaethedig gan gynnwys amcan o'r amserlen ar gyfer cyflawni'r gwaith, cadarnhad o hyfywedd ariannol tebygol y cynnig ac unrhyw ddogfennau ynghylch cyflwr y safle, perchnogaeth a chyfyngiadau cyfreithiol sydd yn eich meddiant. Bydd Swyddog Cynllunio yn ymweld â'r safle. Os oes angen mynediad, rhaid darparu manylion cyswllt fel bod modd trefnu hyn.

Byddwch yn cael gwybod am unrhyw wybodaeth ategol ychwanegol a nodir fel gwybodaeth y mae ei hangen, er enghraifft Asesiad o Ganlyniad Llifogydd, ar y cyfle cynharaf posibl a'ch

cyfrifoldeb chi fydd darparu'r wybodaeth hon. Cytunir ar amserlen addas ar gyfer cyflwyno'r wybodaeth.

**Oherwydd y gwaith sydd ynghlwm â'r gwasanaeth hwn, y cyfle olaf a fydd ar gael i ofyn am y Gwasanaeth Cyflwyno fydd 31 Awst 2023. Ni dderbynnir unrhyw geisiadau am y gwasanaeth hwn ar ôl y dyddiad hwn.**

Gallwch ofyn am y gwasanaeth hwn trwy lenwi'r Ffurflen Gais ar gyfer y Gwasanaeth Cyflwyno Safleoedd Ymgeisiol sydd ar wefan y Cyngor:

Dylech anfon y ffurflen, wedi ei chwblhau, ynghyd â chynllun o leoliad y safle ac unrhyw ddogfennau cysylltiedig, i: ldp@torfaen.gov.uk gyda'r geiriau 'Gwasanaeth Cyflwyno Safleoedd Ymgeisiol/Candidate Sites Submission Service' yn y llinell destun.

Gallwch dalu â cherdyn dros y ffôn trwy ofyn am alwad yn ôl gan dîm Gwasanaethau Cwsmeriaid Torfaen, neu trwy wefan y Cyngor Porth Taliadau Civica – Cynnyrch a Gwasanaethau (civicaepay.co.uk) gan roi'r cyfeirnod incwm CP0800/8312/PP11

Nodwch:
- Mae taliadau gwasanaeth yn cynnwys TAW
- Ni fydd eich cais am gymorth yn cael ei brosesu heb daliad

**Ymwadiad**
Rhoddir yr holl gymorth a ddarperir ynghylch cyflwyno Safle Ymgeisiol heb ragfarn tuag at ystyried cyflwyniad safle ymgeisiol ffurfiol. Bydd pob Safle Ymgeisiol a gyflwynir yn ddarostyngedig i'r un broses asesu ag y manylir arni ym Methodoleg Asesu a Chofrestr Safleoedd Ymgeisiol (Mai 2023) a gyhoeddwyd ar wefan y Cyngor. **Nid yw defnyddio Gwasanaeth Cyflwyno Safleoedd Ymgeisiol y Cyngor yn rhagfarnu yn erbyn asesiad cywir safle a gyflwynwyd ac nid yw chwaith yn rhwymo'r Awdurdod Cynllunio Lleol i ganlyniad penodol.**

Os oes unrhyw gwestiynau gennych am y gwasanaeth hwn, cysylltwch â'r Tîm Cynllunio a Gweithredu Polisïau yn ldp@torfaen.gov.uk neu ar 01633 648805 / 01633 648039.

**Safonau'r Gwasanaeth Cyflwyno Safleoedd Ymgeisiol**

1. Cofrestru a Chydnabod – wedi derbyn eich ffurflen ar gyfer y Gwasanaeth Cyflwyno Safleoedd Ymgeisiol, byddwn yn:
    - Gwirio eich bod wedi rhoi digon o wybodaeth i'n galluogi i ymgymryd â'r gwaith cyflwyno ac i gynghori a oes angen cyflwyno rhagor o wybodaeth arnoch.
    - Cydnabod i ni dderbyn eich cais a chadarnhau'r ffi a dalwyd o fewn 3 diwrnod gwaith

2. Amserau Ymateb – Byddwn yn anelu at gyflawni'r amserau canlynol (Diwrnodau Gwaith o'r Dyddiad y Derbyniwyd y Cais am y Gwasanaeth Cyflwyno Safleoedd a'r Taliad):

| | |
|---|---|
| Cofrestru/Cydnabod y Cais am y Gwasanaeth Cyflwyno Safleoedd Ymgeisiol a'r Taliad | O fewn 3 diwrnod |
| Ymweliad Safle a llunio Cynllun Seilwaith Gwyrdd dangosol | O fewn 10 diwrnod |
| Cyflwyno Ffurflen Galwad am Safleoedd Ymgeisiol trwy OpusConsult (yn amodol ar dderbyn y wybodaeth angenrheidiol) | O fewn 15 diwrnod |

Mewn achosion sy'n arbennig o gymhleth, neu mewn amgylchiadau nad oedd modd eu rhagweld, efallai y bydd angen mwy o amser arnom a byddwn yn trafod hyn gyda chi ac yn dod i gytundeb gyda chi ar y cyfle cynharaf posibl.